# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.10.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Robert Anderson, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Evie Morgan Jones, J.R.Jones, W. Tudor Owen, Peter Read, Ieuan Roberts a W. Gareth Roberts

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd); Bleddyn Davies (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd Dros Dro) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwilym O. Williams ac Anne Lloyd Jones (ex-officio)

**1. NEWID AELODAETH:**

Nododd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Dylan Edwards wedi gwneud cais i'w ryddhau o aelodaeth y Pwyllgor Trwyddedu, a bod y Cynghorydd Dewi Llewelyn wedi ei enwebu i gymryd ei le.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2008 fel rhai cywir.

**4. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG:**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

| | |
|---|---|
| 18 Ebrill 2008 | 4 Mehefin 2008 |
| 13 Mehefin 2008 | 20 Mehefin 2008 |
| 30 Mehefin 2008 | 12 Awst 2008 |
| 5 Medi 2008 | |

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.**

**5. CYNLLUN CYFLWYNO GWASANAETH DIOGELWCH BWYD AR GYFER 2008/09**

Eglurodd y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd mai'r Pwyllgor Trwyddedu sydd â chyfrifoldeb dros gymeradwyo'r ddau Gynllun sydd gerbron heddiw oherwydd nad oes gan Fwrdd y Cyngor hawl dros faterion rheoleiddio. Mae'n ofynnol i'r timau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, a chafwyd cais gan aelod am i gopi o'r adroddiadau hynny gael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor hwn er gwybodaeth.

Cyflwynodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd Dros Dro adroddiad yn rhoi gwybodaeth am drefniant gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd lle mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu cynllun cyflwyno gwasanaeth diogelwch bwyd ar gyfer eu hardal er mwyn cydymffurfio â chytundeb fframwaith a gyhoeddwyd ym mis Medi 2000.

Rhoddodd fanylion am y cytundeb fframwaith a'r modd y bydd yr Asiantaeth yn cymharu perfformiad Gwynedd yn erbyn awdurdodau eraill, a'r hawl cyfreithiol sydd ganddo i gymryd drosodd waith rheoli'r gwasanaeth bwyd os na chyrhaeddir y safonau perfformiad angenrheidiol.

Cyflwynwyd i sylw'r aelodau wybodaeth am y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth - Diogelwch Bwyd ar gyfer 2008/09 gan fanylu ar y pwyntiau canlynol:

- Nodau ac Amcanion
- Cefndir y Cynllun
- Maes Gweithredu'r Gwasanaeth
- Adnoddau
- Asesu Ansawdd
- Adolygu a Monitro

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi'r Swyddog ar gynnwys yr adroddiad a chafwyd eglurhad ar sawl mater, megis:

- Llygredd Cyflenwad Dwr – rôl Cyngor Gwynedd mewn argyfwng
- Categoriau safoni busnesau bwyd A – E, gyda categori A yn dynodi risg uchel
- Uned Twyll Bwyd Cymru – a sefydlwyd i ymateb i bryder am ganolfannau yn Ne Cymru sy'n cynhyrchu 'smokies'
- Trefn ymdrin â chwynion gan y cyhoedd
- Sgoriau ar y Drysau, sef cynllun gan rhai awdurdodau eraill ar gyfer eiddo bwyd
- Haint trwy lygredd dwr, megis cryptosporidium – nad oes posib hawlio iawndal gan Dwr Cymru oherwydd y gwaith ychwanegol i'r Cyngor

Mynegodd un aelod, sy'n berchen busnes, ei wethfawrogiad o'r cymorth sydd ar gael gan y swyddogion Iechyd Amgychedd (Bwyd).

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth gan ofyn am adroddiadau perfformiad achlysurol i'r Pwyllgor hwn.**

**6. CYNLLUN YMYRRAETH 2008/09 Y GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**

Eglurodd Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd bod adran o fewn Uned Gwarchod y Cyhoedd yn delio â gorfodi iechyd a diogelwch mewn mannau gwaith tu allan i'r Cyngor, megis siopau, meysydd carafanau, gwestai ac ati. Golyga hyn drefnu archwiliadau i safonau iechyd a diogelwch mewn oddeutu pedair mil o safleoedd gwaith, gan gynnwys digwyddiadau sydd wedi cael eu cyfeirio i sylw'r adran.

Mae gan pob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod trefniadaethau digonol mewn lle er mwyn gorfodi'r darpariaethau statudol perthnasol, a dyletswydd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yw cymeradwyo'r Cynllun sy'n amlinellu'r trefniadaethau hyn. Cyflwynwyd y Cynllun i'r aelodau gan y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd Dros Dro a manylwyd ar ambell i agwedd.

Cafodd yr aelodau gyfle i drafod cynnwys y Cynllun a holi'r Swyddog, a chafwyd ymateb ar y pwyntiau canlynol:

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) sy'n archwilio i unrhyw achos o fewn y Cyngor
- Y byddai'n fuddiol cael adroddiadau achlysurol ar berfformiad yn y maes hwn
- Gwahardd Ysmygu – adroddwyd ar gwynion gan gwsmeriaid sy'n gorfod cerdded drwy fwg ysmygwyr sy'n ymgasglu tu allan i eiddo. Adroddodd y Swyddog bod yr adran yn ymwybodol o'r broblem a'u bod yn cydweithio â pherchenogion eiddo i geisio datrys y broblem.
- Hawl i fynediad at ddwr – a ddaw i rym yn y dyfodol agos. AGID fydd yn rhoi sylw i unrhyw ymholiad ar dir preifat, megis fferm
- Mae Swyddog Coed o fewn Cyfadran Amgylchedd y Cyngor yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw goed ar dir y Cyngor.
- Toiledau yn cau – mynegwyd pryder am ddiffyg cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ac oblygiadau iechyd a diogelwch o ganlyniad. Adroddwyd mai mater i'r Heddlu yw delio â phobl sy'n defnyddio gerddi preifat ac ati yn lle toiledau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys gan ofyn am adroddiadau perfformiad achlysurol i'r pwyllgor hwn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben am 11.30a.m.